Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

# Adroddiad i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Tachwedd 2020

## Cyflwyniad

Caiff gweithgarwch rheoleiddio'r sector Cymdeithasau Tai yng Nghymru ei lywio gan y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.  Mae gan y dull modern hwn o reoleiddio'r sector ffocws cryf ar denantiaid, a chaiff perfformiad llywodraethu a rheoli lleol a hyfywedd ariannol eu gwerthuso'n rheolaidd. Mae'n fodel rheoleiddio sy'n rhoi llwyfan gwerthfawr ar gyfer sicrwydd annibynnol i denantiaid, benthycwyr, buddsoddwyr, y llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae'r briff hwn yn defnyddio'r wybodaeth helaeth sydd ar gael o'r gwaith rheoleiddiol hwnnw i roi safbwyntiau cyffredinol Bwrdd Rheoleiddiol Cymru i'r Gweinidog ar y canlynol:

- perfformiad y sector a gwaith y rheoleiddiwr dros y flwyddyn ddiwethaf;
- ymateb y sector i bandemig COVID-19 a rôl y rheoleiddiwr yn y cyfnod parhaus hwn;
- yr hyn a gaiff ei ddysgu o'r pandemig, a'r cyfleoedd strategol sy'n bodoli i ail-lunio'r dulliau rheoleiddiol sy'n bodoli yng Nghymru.

Dylid darllen y papur briffio cryno hwn ar y cyd â'r Adroddiad ar Reoleiddio Tai – Sicrhau Ansawdd 2019/20 a roddodd grynodeb manylach o'i waith, a'i gasgliadau ar berfformiad y sector.

Rydym yn bwriadu rhoi ystyriaeth bellach i berfformiad y sector a gwaith y rheoleiddiwr yn ystod y pandemig Covid-19 yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

### Perfformiad y sector a gwaith y rheoleiddiwr dros y flwyddyn ddiwethaf

i) Dyfarniadau rheoleiddiol presennol

Nod y tîm rheoleiddio yw cyhoeddi o leiaf un dyfarniad rheoleiddiol ffurfiol bob blwyddyn ar gyfer pob cymdeithas dai yng Nghymru. Mae'r dyfarniadau hyn, sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu a hyfywedd ariannol bellach yn elfen graidd o'r fframwaith rheoleiddiol ac yn faromedr perfformiad allweddol ar gyfer amrywiaeth o randdeiliaid. Cyhoeddwyd 36 dyfarniad yn ystod yr ail gylch hwn o ddyfarniadau ers iddynt gael eu cyflwyno, sy'n gyflawniad clodwiw.

Rhoddwyd sgôr “safonol” i'r mwyafrif helaeth (dros 90%) o ddyfarniadau – yn debyg i'r cylch blaenorol. Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru eto o'r farn bod hyn yn dystiolaeth bod y sector yn gyffredinol yn iach, a'i fod yn bodloni gofynion rheoleiddiol ar y cyfan ac yn dangos ei fod yn cyrraedd y Safonau Perfformiad statudol gofynnol sy'n cwmpasu llywodraethu, rheolaeth/hyfywedd ariannol a darparu gwasanaethau.

Er na chafwyd llawer o newid felly yn nifer y dyfarniadau “ansafonol” dros y ddau gylch, mae'n bwysig nodi yn y flwyddyn ddiwethaf, mai dim ond dwy gymdeithas dai a aseswyd o'r newydd â dyfarniadau ansafonol o gymharu â phedair yn y flwyddyn flaenorol a chafwyd gostyngiad o tua 20% hefyd yn nifer y materion a godwyd mewn llythyrau sicrwydd rheoleiddiol.

Roedd adroddiad Bwrdd Rheoleiddiol Cymru i'r Gweinidog yn 2019 yn gadarnhaol ynghylch perfformiad cyffredinol y sector, ond roedd hefyd yn nodi bod gormod o enghreifftiau o fethiannau llywodraethu a ysgogodd ymyriadau ac amrywiaeth eang o gamau rheoleiddiol ychwanegol. Er bod tueddiadau mewn perthynas â'r dyfarniadau eleni yn dangos bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd, byddem yn dal i hoffi gweld agweddau ar lywodraethu cyffredinol yn gwella - iechyd a diogelwch gan landlordiaid, rheoli risg a chynllunio ariannol yn benodol. Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru o'r farn y bydd y gwelliannau yn y dull rheoleiddiol o asesu perfformiad Cymdeithas, yn cynnwys gwerthuso trefniadau llywodraethu – fel rhan o broses tymor hwy o addasu'r fframwaith a nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn – yn rhoi llwyfan ar gyfer rhagor o welliannau yn y meysydd hyn.

ii) Cefnogi'r sector ehangach

Mae defnyddio gwybodaeth sydd ar gael a gafwyd yn naturiol drwy'r broses reoleiddio mewn sefydliadau unigol – er mwyn helpu i roi cymorth a chyngor amserol i'r sector ehangach – yn un o egwyddorion sylfaenol eraill fframwaith rheoleiddiol cadarn.

Mae'n naturiol y bydd y ffocws yn ystod y cyfnod digynsail hwn ar gymorth COVID-19 a rhannu gwybodaeth, ond mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru hefyd wedi cydnabod yr amrywiaeth o gymorth i'r sector ehangach sydd wedi'i ddarparu gan y rheoleiddiwr, ynghyd â'r mentrau penodol a roddwyd ar waith gan Fwrdd Rheoleiddiol Cymru ei hun. Mae'r rhain wedi cynnwys:

a) <u>Adolygiadau thematig cenedlaethol.</u> Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn comisiynu adolygiadau thematig cenedlaethol penodol, lle yr ystyrir eu bod yn berthnasol i ddatblygiadau yn lleol neu'n genedlaethol. Cynhelir yr adolygiadau hyn ar y cyd ac fel arfer maent yn cynnwys y tîm rheoleiddio, rhanddeiliaid allweddol eraill ac arbenigwyr, ac yn arwain at adroddiadau cenedlaethol penodol a chynhyrchion cymorth eraill.

Y llynedd, cyhoeddodd y Bwrdd ei adolygiad strategol o brosesau ymgysylltu â thenantiaid, Y Pethau Iawn: Clywed Llais Tenantiaid (yn ogystal â dau ddarn annibynnol arall o waith ymchwil a gomisiynwyd i lywio'r adolygiad). Mae argyfwng COVID-19 wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu digidol ac er y bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau cyfathrebu, dylem barhau i geisio sicrhau bod prosesau ymgysylltu â thenantiaid yn cael eu cynnal yn effeithiol, yn y ffyrdd cywir ac ar yr adeg gywir. Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a'r tîm rheoleiddio

yn parhau i weithio gyda TPAS Cymru i geisio safbwyntiau tenantiaid ynghylch pa wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol iddynt ei chael am berfformiad eu landlord. Gobeithio y bydd hyn wedyn yn llywio gwaith i wella tryloywder data a'r broses o'u cyhoeddi. Mae'n bwysig rhoi llais cryf i denantiaid wrth reoleiddio, yn enwedig er mwyn sicrhau gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

b) Cyhoeddiadau penodol i'r sector

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Adroddiad blynyddol y Rheoleiddiwr, sef Trosolwg o Risgiau'r Sector: heriau, risgiau a disgwyliadau rheoleiddiol, y bwriedir iddo dynnu sylw at themâu cenedlaethol a themâu sy'n dod i'r amlwg a chefnogi gwaith cynllunio strategol byrddau a thimau gweithredol lleol;
- y cyhoeddiad blynyddol, Cyfrifon Cynhwysfawr ar gyfer y sector (ar y cyd â Cartrefi Cymunedol Cymru) sy'n darparu amrywiaeth o ddata ariannol a data perfformiad cymharol.

c) Adolygiadau cenedlaethol ategol

Mae pandemig COVID-19 wedi atgyfnerthu pwysigrwydd tai diogel o ansawdd da. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cyflenwad yn bell o fod yn diwallu'r angen o hyd. Ym mis Medi 2018, gwnaethom gyflwyno cyfraniad Bwrdd Rheoleiddiol Cymru i'r Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy a chroesawu ei adroddiad eang a gyhoeddwyd y llynedd. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i roi argymhellion yr Adolygiad ar waith. Yn ogystal, fel Bwrdd, byddwn yn parhau i sicrhau bod cynnig gwerth am arian ym mhob agwedd ar waith cymdeithasau yn parhau wrth wraidd y broses o asesu perfformiad rheoleiddiol.

**Ymateb y sector i bandemig COVID-19 a rôl y rheoleiddiwr yn y cyfnod parhaus hwn**

Mae'r sector tai yng Nghymru yn wynebu risgiau a heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen o ganlyniad i'r pandemig parhaus. Fel Bwrdd, rydym yn cydnabod bod Cymdeithasau Tai yn gweithio'n galed iawn i reoli a lliniaru effeithiau COVID-19 ar eu gweithrediadau er mwyn diogelu eu tenantiaid a'u staff.

Mewn amgylchiadau mor eithriadol, gall prosesau rheoleiddio sy'n canolbwyntio o ddifrif ar risg chwarae rôl bwysig iawn o ran rhoi sicrwydd parhaus ynghylch ymatebion y sector, a rhoi cyngor a gwybodaeth amserol i'r sector ynghylch heriau ac arferion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r sector ehangach er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu a bod pawb sy'n ymweud â rheoleiddio yn dysgu ac yn datblygu er mwyn bodloni'r gofynion newidiol hynny.

i) Y dull rheoleiddiol a heriau uniongyrchol

Ers dechrau'r pandemig, mae gwaith rheoleiddiol wedi cael ei gwtogi, ac mae'r gwaith o gyhoeddi dyfarniadau rheoleiddiol unigol wedi'i atal dros dro. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Tîm Rheoleiddio Tai yn parhau i weithio'n agos gyda chymdeithasau unigol, gan ddatblygu dull rheoleiddio pwrpasol, sy'n seiliedig ar risg ac yn gymesur. Mae'r dull newydd dros dro hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar effaith y coronafeirws ar weithrediadau Cymdeithasau, gyda phwyslais cryf ar y canlynol:

- Diogelwch tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau;
- Cydnerthedd a hyfywedd ariannol parhaus;
- Parhad busnes.

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi cefnogi'r dull dros dro hwn fel un sy'n cydnabod effaith y pandemig a'r prosesau sicrwydd allweddol sydd eu hangen.

Yn ogystal, ers mis Mai eleni, cafodd Arolwg Parhad Busnes misol ei anfon at Gymdeithasau yng Nghymru er mwyn helpu i roi gwybodaeth gywir, gyfredol am y modd maent yn ymdopi â llawer o'r heriau gweithredol presennol a newydd.

Hyd yma, mae canlyniadau'r arolygon wedi bod yn gysur ac yn galonogol sy'n awgrymu, er bod Cymdeithasau yn nodi rhywfaint o bwysau cynyddol, nad oes yr un ohonynt yn awgrymu bod unrhyw faterion na ellir ymdopi â nhw mewn unrhyw agweddau ar eu busnes. Mae incwm yn parhau ar lefel resymol ar hyn o bryd, er y disgwylir y bydd ôl-ddyledion o bosibl yn cynyddu'n sylweddol wrth i ddulliau cymorth ariannol fel ffyrlo ddirwyn i ben. Mae cymdeithasau yn profi cadernid eu cynlluniau busnes ac yn monitro perfformiad ariannol yn agos iawn. Mae'r tîm rheoleiddio yn trafod unrhyw allanolion perfformiad ag unrhyw gymdeithas dan sylw er mwyn cytuno ar gamau gweithredu priodol.

Mae'r tîm rheoleiddio, gan ymgynghori â'r sector a rhanddeiliaid eraill, a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, hefyd yn rhoi rhaglen dyfarniadau dros dro ar waith. Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru o'r farn y gall hyn fod yn gam pontio pwysig sy'n adeiladu ar y dull rheoleiddiol yn ystod y pandemig, gan anelu o bosibl at ailosod y fframwaith yn 2021.

## Dysgu o'r pandemig, a'r cyfleoedd strategol sy'n bodoli i ddatblygu'r dulliau rheoleiddiol sy'n bodoli yng Nghymru.

Datblygu ac ailfeddwl am y broses o reoleiddio'r sector yn y dyfodol

Mae angen ailwerthuso dulliau rheoleiddiol yn barhaus pan fo hynny'n angenrheidiol wrth gwrs, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu modelau rheoleiddiol modern sy'n datblygu ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae hefyd angen iddynt ymateb ac addasu i newidiadau mewn polisi a materion sy'n deillio o adolygiadau a mentrau cenedlaethol perthnasol.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o ddulliau rheoleiddiol newydd yr oedd angen eu haddasu, wrth reswm, er mwyn ystyried amgylchiadau'r sector yn deillio o'r pandemig, bellach yn rhoi cyfle ychwanegol sylweddol i ailfeddwl am fethodolegau.

Mae'r adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Rheoleiddiol y bwriadwyd ei gynnal yn ddiweddarach yn 2020 hefyd yn ystyried yr angen pwysig hwnnw i sicrhau bod prosesau rheoleiddiol yn parhau'n gyfredol. Bydd yr adolygiad hwnnw, er enghraifft, yn ystyried cyflwyno dyfarniad ychwanegol ar wahân ynghylch rôl tenantiaid a'r broses o ymgysylltu â nhw a bydd o bosibl yn cyd-fynd yn dda â datblygiadau yn y maes allweddol hwnnw.

Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod nifer o newidiadau sylfaenol y gellid eu gwneud i'r dull rheoleiddiol sy'n berthnasol yma hefyd, a bod angen rhoi ystyriaeth iddynt yn genedlaethol – a godwyd i ddechrau, yn bennaf, yn ein hadroddiad y llynedd i'r Gweinidog ac sy'n datblygu momentwm pellach nawr.

i) “Rheoleiddio maes”

Mae tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, p'un a yw eu landlord yn gymdeithas dai neu'n awdurdod lleol, yn wynebu llawer o'r un heriau o ran dwyn eu landlord i gyfrif am ansawdd y gwasanaethau a gânt, yn ogystal â'r ymgysylltiad rhyngddynt a'u landlord. Yn ein hadroddiad i'r Gweinidog y llynedd, gwnaethom ddadlau bod anghysondebau ac anghydraddoldebau yn natur y broses o reoleiddio tai rhwng y sector cymdeithasau tai a'r sector llywodraeth leol yng Nghymru. Rydym yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â TPAS Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tai Cymunedol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi comisiynu darn bach o ymchwil annibynnol i edrych ar y trefniadau rheoleiddio ac atebolrwydd a'r gofynion perfformiad ar gyfer gwasanaethau tenantiaid ym mhob rhan o'r sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Bydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn rhoi sylw manwl i'r ymatebion i'r gwaith ymchwil hwn yn 2020, a'r bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o sicrhau bod y trefniadau atebolrwydd ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru yn cyd-fynd yn agosach â'i gilydd.

ii) Gwella'r gwaith o asesu trefniadau llywodraethu

Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi nodi pryder Bwrdd Rheoleiddiol Cymru bod problemau llywodraethu yn parhau i chwarae rhan fawr yn yr heriau perfformiad hynny sy'n deillio o'r dyfarniadau rheoleiddiol.

Er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth a gallu nodi materion llywodraethu lleol mewn modd mwy amserol, comisiynwyd Campbell Tickell gan Lywodraeth Cymru i roi gwasanaethau cymorth llywodraethu arbenigol i'r tîm rheoleiddio tai cymdeithasol. Ffocws y gwaith cydweithredol oedd:

- Datblygu'r dull rheoleiddiol o asesu trefniadau llywodraethu ymhellach;
- Cynnig hyfforddiant a datblygiad ar drefniadau llywodraethu da;
- Cynyddu'r tebygolrwydd y caiff materion llywodraethu sy'n peri problemau eu nodi cyn gynted â phosibl er mwyn ymateb yn effeithiol a datrys materion ar sail wirfoddol.

Daeth yn amlwg yn gynnar yn y prosiect gan fod trefniadau llywodraethu yn sail i bob agwedd ar fusnes cymdeithas, mai'r hyn a oedd yn cael ei ddatblygu mewn gwirionedd oedd ffordd newydd o asesu perfformiad rheoleiddiol – model asesu newydd. Y bwriad yw y bydd y model asesu newydd hwn hefyd yn cynnwys yr hyn a ddysgwyd o brofiadau COVID-19 a chaiff ei dreialu mewn nifer bach o gymdeithasau cyn ei gyflwyno'n llawn yn 2021.

## Y camau allweddol nesaf

Bydd y deuddeg mis nesaf yn gyfnod heriol iawn i gymdeithasau tai wrth iddynt barhau i ymateb i bwysau'r pandemig. Yn yr un modd, bydd y tîm rheoleiddio yn wynebu llawer o heriau wrth iddo barhau i addasu ei ddulliau gweithredu er mwyn ymateb, a chyflwyno swyddogaeth reoleiddio sy'n rhoi sicrwydd a chymorth amserol.

Ochr yn ochr â hyn mae'r newidiadau rheoleiddiol sylfaenol posibl a nodir uchod. Nid yw rheoleiddio maes, yr adolygiad o'r fframwaith a meini prawf newydd ar gyfer dyfarniadau a model asesu newydd posibl yn ystyriaethau sy'n annibynnol ar ei gilydd a bydd angen ymgynghori a thrafod integredig trylwyr.

Yn anochel, bydd angen i'r trafodaethau hyn ystyried yr adnoddau rheoleiddiol presennol ac effaith unrhyw newidiadau i'r fframwaith a'r dull gweithredu a'r pwysau y bydd hynny'n eu rhoi ar adnoddau. Cyflwynodd ein hadroddiad i'r Gweinidog yn 2019 achos cadarn bod adnoddau presennol y tîm rheoleiddiol yn anghynaliadwy o ystyried yr ymrwymiadau gwaith ychwanegol a'r gostyngiad yn y cymysgedd sgiliau a niferoedd staff dros amser. Mae hyn yn bryder sylfaenol i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru o hyd. Mae angen i unrhyw newidiadau i adnoddau yn y pen draw hefyd fod yn

seiliedig ar ddull gweithredu cadarn ar sail tystiolaeth mewn perthynas â rheoli a chynllunio adnoddau, ac mae'n faes lle mae'r Bwrdd yn awyddus i weld gwelliannau o hyd.

Ym marn Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, bydd angen i'r trafodaethau hyn hefyd ystyried ffrydiau cyllido a'r posibilrwydd o system sy'n seiliedig ar ffioedd yn y dyfodol. Byddant hefyd yn rhoi cyfle i ystyried lleoliad ac annibyniaeth y swyddogaeth reoleiddio yn y dyfodol – sydd eto yn drafodaeth werth chweil ym marn Bwrdd Rheoleiddiol Cymru.

## Penodiadau newydd i'r Bwrdd

Yn gynharach eleni, yn dilyn argymhellion gan y panel penodi a chymeradwyaeth Weinidogol, croesawodd y Bwrdd ddau aelod annibynnol newydd, Karen McArthur a Huw Thomas. Er ein bod wedi bod yn cyfarfod yn rhithiol fel Bwrdd ers mis Mawrth (a'n bod yn disgwyl i hynny barhau hyd y gellir rhagweld), mae'r penodiadau newydd hyn wedi atgyfnerthu gwaith Bwrdd Rheoleiddiol Cymru. Gan fod penodiadau cyhoeddus wedi cael eu hatal dros dro, nid ydym wedi gallu penodi Cadeirydd newydd i'r Bwrdd eto, ond rydym yn gobeithio gwneud hynny'n fuan a fydd yn ein galluogi i helpu i ystyried rhai o'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â phrosesau rheoleiddio tai ac sy'n wynebu'r sector yng Nghymru.